

# Yr oedd yn Lesotho fugeiliaid...



**U**n o hanesion mwyaf gwefreiddiol hanes y Nadolig cyntaf yw ymddangosiad yr angylion i fugeiliaid Bethlehem: Neges ryfeddol geni Gwaredwr y byd yn cael ei rhannu â dynion digon syml, ymylol a dinod yn y gymdeithas. Daethant yn dystion ffyddlon a llawen i'r efengyl; rhai o genhadon cyntaf y ffydd Gristnogol!

Hanes cyffrous hefyd yw ymgais cenhadon ein dydd ni i gyrraedd bugeiliaid diarffordd gogledd Lesotho yn Affrica. Mae Cenhadaeth Mewndir Affrica (AIM) yn bartneriaid gyda thîm o chwech o ddyinion sy'n byw a gweithio ar fynydd-diroedd anial er mwyn tystio trwy air a gweithred am gariad ac aberth y Bugail da, Iesu Grist.

nodweddion amlwg y grefydd leol. Mae hyn yn creu hinsawdd o ofn a difaterwch moesol.

Yn y sefyllfa hon mae'r tîm yn cael cyfleoedd da i rannu eu ffydd a dangos mewn ffyrdd ymarferol beth yw cariad Cristnogol.

Ar ôl hyfforddiant mewn coleg Beiblaidd ymunodd Chris K â'r tîm yn Hydref 2014. Sonia am yr her a'r anawsterau ymarferol o fyw, cysgu, bwyta a chydweithio â'r bugeiliaid. Er eu bod yn gyfeillgar a chroesawus ar y cyfan, mae peth drwgdybiaeth naturiol o ddyinion estron sy'n byw a gweithio yn eu



atgyfodiad yr Arglwydd Iesu. Mae Salm 23 ac Ioan 10 yn ffefrynnau derbyniol a rhai wedi dechrau dysgu adnodau sy'n sôn am yr Arglwydd yn fugail da sy'n barod i'w aberthu ei hun dros ei braidd. Mae'r rhan fwyaf o'r bugeiliaid yn anllythrennog, felly adrodd stori ar lafar yw'r prif ddull o rannu'r efengyl.



Mae tua 120,000 o ddyinion a bechgyn yn byw a gweithio mewn cymunedau o fugeiliaid sydd heb glywed yr efengyl erioed. Er mwyn i'r cenhadon eu cyrraedd rhaid iddynt ddysgu'r iaith frodorol ac ymdoddi i'r y diwylliant er mwyn dysgu ffordd o fyw a phatrymau meddwl y bugeiliaid lleol. Mae'r bugeiliaid profiadol wedi cytuno cymryd aelodau'r tîm yn brentisiaid o dan hyfforddiant.

Tywyllech addoli'r hynafiaid, dewiniaeth ac ofergoeldd yw

plith. Pam maent yma o gwbl? Beth yw eu hamcanion a'u bwriadau? Ond wrth weithio'n ddiwyd a dangos cysondeb cymeriad gonest a heddychlon mae Chris a'i gyfeillion yn ennill parch, hygrededd a chyfleoedd naturiol i dystio i'w ffydd.

Mae peth ffrwyth a chynnydd i'w gweld wrth i'r tîm ddyfalbarhau yn amyneddgar. Wrth ymgasglu o gwmpas y tân fin nos mae modd dweud yr hen hanes am fywyd, dysgeidiaeth, gwrthiau, croes ac

Mae nifer cynyddol yn dangos diddordeb yn yr efengyl a rhai wedi dod i gredu, ond sut gall y dynion ddyfnhau eu ffydd a sut mae mynd ati i ddechrau plannu eglwysi? Cwestiynau bywyd a thyfiant yw'r rhain yn hytrach na dirywiad a marw!

Gofynna Chris am weddi dros eu gwaith a'u tystiolaeth. Mae arnynt angen egni a dyfalbarhad ysbrydol ynghyd â gras cynhaliol o ddydd i ddydd. Maent yn ymwybodol o frwydr ysbrydol lle mae angen diogelwch yr Arglwydd. Eu dymuniad pennaf yw bod bugeiliaid Lesotho, fel bugeiliaid Bethlehem gynt, yn gweld gogoniant yr Arglwydd yn disgleirio o'i hamgylch. Ac y byddant yn dod i gredu fod Crist yr Arglwydd yn Geidwad iddynt hwythau hefyd.

**Meirion Thomas**